**Huw Irranca-Davies AS/MS**
**Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig**
**Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change & Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/HIDCC/1575/25

Llŷr Gruffydd AS
Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
SeneddClimate@senedd.wales

7 Gorffennaf 2025

Annwyl Llŷr

Diolch am eich gohebiaeth dyddiedig 13 Mehefin yn amgáu Adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith '*Gwrandawiad cyn penodi: 'Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru'.*

Rwy'n ddiolchgar i'r Pwyllgor am ei waith craffu cyn penodi ar yr ymgeisydd a ffefrir, Mr Nilesh Sachdev ac am gyhoeddi ei adroddiad yn brydlon. Rwy'n falch o weld y Pwyllgor yn cymeradwyo penodi Mr Sachdev i rôl Cadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru.

O ran y pryderon a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor, rwyf wedi ceisio sicrwydd ychwanegol o ymrwymiad amser Mr Sachdev, felly rwy'n fodlon ei fod yn gallu bodloni gofynion y rôl.

Bydd fy swyddogion a Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi Mr Sachdev gyda rhaglen gynefino a hyfforddi wedi'i theilwra i'w helpu i ddatblygu dealltwriaeth fwy a dyfnach o Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ogystal â gweithredu yng nghyd-destun Cymru. Bydd y rhaglen hon yn cael ei chychwyn, pan gaiff ei benodi'n ffurfiol h.y. cyn iddo gyrraedd yn ffurfiol, a bydd yn parhau ar ôl iddo gyrraedd fel Cadeirydd ym mis Tachwedd.

Rwyf felly wedi gwneud y penderfyniad i benodi Mr Sachdev yn Gadeirydd Cyfoeth Naturiol Cymru. Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor eto am eich amser wrth gynnal y gwrandawiad cyn penodi. Byddwn yn ddiolchgar pe gallai'r Pwyllgor gadw hyn yn gyfrinachol nes i mi ei gyhoeddi.

Yn gywir,

**Huw Irranca-Davies AS/MS**
Y Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig
Deputy First Minister and Cabinet Secretary for Climate Change and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.huw.irranca-davies@llyw.cymru
correspondence.huw.irranca-davies@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.